

Trwsio eich Hernia gyda Rhwyll

"Yn eich helpu i ddewis ar sail gwybodaeth"

Cyflwyniad

Ynghyd â thrafodaeth gyda'ch llawfeddyg, paratowyd y daflen wybodaeth gryno hon i'ch helpu i wneud y dewisiadau sy'n gywir i chi.

Beth yw fy opsiynau?

Nid oes angen llawdriniaeth ar bob hernia, ond ar ryw adeg bydd angen gwneud un ar bron bob hernia, gan y bydd yn tyfu gydag amser a gall arwain at symptomau eraill.

Opsiynau nad ydynt yn cynnwys llawdriniaeth

Mae "Aros yn wyliadwrus" yn opsiwn i gleifion â hernia sy'n dangos ychydig iawn o symptomau. Ni ddylai presenoldeb hernia ynddo'i hun eich cyfyngu yn eich gallu i gyflawni eich holl weithgareddau arferol, gan gynnwys ymarfer corff.

Opsiynau sy'n cynnwys llawdriniaeth

Mae angen llawdriniaeth i drwsio hernia. Ceir dwy brif dechneg:

Trwsio heb ddefnyddio rhwyll:

mae hyn yn cynnwys cau'r diffyg yn wal yr abdomen (y twll) gyda phwythau fydd yn creu tensiwn i ryw raddau.

Trwsio gyda rhwyll:

defnyddio rhwyll i wella'r trwsiad ac i gryfhau'r man.

Gellir perfformio trwsïadau drwy llawdriniaeth agored neu laparosgopi (twll clo) a chaiff y dechneg fwyaf addas ei thrafod.

Rhwyll ar gyfer llawdriniaethau, rheoliadau a diogelwch

Mae defnyddio rhwyll i drwsio mwyafrif yr hernïau wedi bod yn ddull a ffefrir yn y DU a ledled y byd am fwy na 25 mlynedd. Mae llawer o ddata ar ganlyniadau'r gwahanol llawdriniaethau hernia a'r amrywiol rwyllau. Yn wir, pan fo llawfeddygon yn cael llawdriniaeth hernia, maent yn dewis trwsiad gyda rhwyll. Mae rheolaeth y rhwyllau a ddefnyddir mewn llawdriniaethau yn llym iawn, ac mae'n ofynnol iddynt gael marc CE er mwyn eu defnyddio gyda chleifion yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae diogelwch cleifion yn elfen hanfodol o'r rheoliad hwn ac mae cydymffurfiaeth reoliadol yn cael ei hadolygu yn rheolaidd gan awdurdodau yn yr UE.

A yw trwsio gyda rhwyll yn cael ei ystyried yn 'safon aur'?

Mae gan lawer o gleifion sy'n datblygu hernia 'wendid yn eu meinweoedd' ac ni fydd y pwythau yn cael eu cynnal yn iawn. Mae hyn yn esbonio pam y mae trwsïadau â phwythau yn methu'n amlach na'r rhai pan ychwanegir rhwyll. Ar gyfer mwyafrif helaeth y cleifion, bydd y rhwyll yn peri risg ychwanegol bach iawn neu ddim risg o gwbl, ac ar y cyd â chyfradd achosion ailadroddus is, mae hyn wedi arwain at droi'r defnydd o rhwyll yn 'safon aur' o ran trwsio hernïau.

A oes anfanteision i drwsio gyda rhwyll?

Mae'r rhwyll yn ddeunydd estron, fel unrhyw impiad synthetig (dannedd gosod, coronau, falfiau'r galon ac ati). Gall gael ei heintio ond prin iawn bydd hyn yn digwydd. Mae rhai cleifion yn datblygu poen cronig ar ôl y llawdriniaeth. Nid oes perthynas gadarn wedi'i nodi rhwng defnyddio rhwyll a phoen cronig, a gall trwsïadau heb rhwyll hefyd arwain at y broblem hon.

Crynodeb

Ar gyfer mwyafrif y cleifion bydd rhwyll yn ffordd ddiogel a dibynadwy o drwsio hernia. Mae miliynau o drwsïadau hernia wedi eu perfformio'n llwyddiannus gyda rhwyll. Mae dewisiadau amgen ar gael a chânt eu trafod i'ch helpu i benderfynu ar sail gwybodaeth. Rhagor o wybodaeth: www.britishherniasociety.org



Cydnabyddiaeth:

Wedi'i chreu a'i dosbarthu yn unol â chaniatâd Cymdeithas Torgesti Prydain, corff llywodraethu llawfeddygaeth torgesti yn y DU.

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English".**